# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023

14:00- 15:30

Zoom

| **Aelodau presennol:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd | Grŵp Llandrillo Menai |
| Dylan Williams (DW) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Llinos Medi (LlM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Owen (GO) | Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Dafydd Gwynne (DG) | Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Euros Jones (EJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emyr Williams (EW) | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Catrin Thomas | Gwasanaeth Prawf |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Glyn Jones (GJ) | Llywodraeth Cymru |
| Stuart Forshaw (SF) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Llinos Davies (LlD) | Heddlu Gogledd Cymru |
| Martin Cox (MC) | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Yn mynychu:** | |
|---|---|
| Sandra Thomas (ST) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Gwenan Pritchard (GP) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |

| **Ymddiheuriadau:** | |
|---|---|
| Dafydd Gibbard (DG) | Cyngor Gwynedd |
| Lyndsey Campbell-Williams (LC-W) | Medrwn Môn |
| Tracey Williams (TW) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Gillian Jones (GJ) | Gwasanaeth Prawf |

**Pwyntiau Gweithredu**

1. Rhannu dogfennau Creu Diwylliant Cydweithredol yn y BGC **– Tîm Cefnogi**
2. Papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn y Bwrdd Iechyd i'w gylchredeg - **Tîm Cefnogi**
3. Ychwanegu eitem Adrodd yn ôl gan y Cadeirydd ar yr Agenda o hyn allan. - **Tîm Cefnogi**
4. Siarter Teithio Llesol: Holl Aelodau angen trafodaethau pellach o fewn eu sefydliadau. GP i rannu'r ddogfennaeth eto. Trafodaeth bellach yn cyfarfod nesaf y Bwrdd – **Pawb/ GP**
5. Holiadur Casglu Gwybodaeth: Aelodau sydd heb gwblhau'r holiadur i wneud cgbm – **Pawb**
6. Laniad Cynllun Llesiant yn yr Eisteddfod: cais i Aelodau'r Bwrdd roi gwybod i ni os oes unrhyw ddigwyddiadau neu gyfleoedd i fynychu digwyddiadau yn ystod yr Eisteddfod - **Pawb**

**Cofnod o'r drafodaeth**

| Eitem | Nodiadau | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. | | |
| **2** | **Eitem Gwadd - Creu Diwylliant Cydweithredol yn y BGC – Elizabeth Woodcock**<br>Cafwyd cyflwyniad gan Elizabeth Woodcock ynghylch ei canfyddiadau ymchwil i ddiwylliant cydweithredu o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sut i ychwanegu gwerth ac osgoi 'siop siarad' o fewn y Byrddau. Bu Elizabeth yn arsylwi gwaith Bwrdd Gwynedd a Môn yn ystod y 2018-2020 gan hefyd sefydlu grŵp ymchwil gyda rhai aelodau o'r Bwrdd a arsylwi rhwydweithiau eraill.<br>Ar sail profiad y grŵp ymchwil mae 3 prif argymhelliad i'r Bwrdd:<br>• Er mwyn gwella cyd-dealltwriaeth mae angen canolbwyntio ar ddeall sut mae'r sefydliadau yn gallu cyfrannu gyda'i gilydd<br>• Er mwyn deall pwy oedd â mwy o ddylanwad mae angen gwrando ar bobl ar lefel ymarferol ac ar grwpiau cymunedol i ddeall pwy oedd yn elwa o brosiectau ar y cyd<br>• Er mwyn ysgogi ni i osgoi bod amrywiaeth o amcanion yn cystadlu, mae angen cyfuno nifer o egwyddorion mewn un strategaeth ar y cyd<br>Nododd Cyng. DS ei bryder bod llawer o theori academaidd yma ac angen ystyried sut i'w ddefnyddio yn ymarferol a nad oedd yn cytuno gyda rhai o'r canfyddiadau ee penderfyniadau yn dod o'r pen i lawr.<br>Dywedodd ST y byddwn dros yr wythnosau nesaf yn ystyried y canfyddiadau yn fanwl ac edrych ar sut i wneud yn ymarferol i waith y Bwrdd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cytunodd Elizabeth Woodcock bod llawer o iaith theori yn cael ei ddefnyddio oherwydd natur y gwaith. Nodwyd bod y linciau a ddarparwyd o fewn y cyflwyniad yn rhoi mwy o gyd-destun<br>Enhancing partnership working in Public Services Boards - Bangor University<br>Using a Wild Pathways strategy to extend the Local Nature Partnerships alliance - Bangor University<br>Nodwyd hefyd bod y Bwrdd wedi symud ymlaen i raddau ers cynnal yr ymchwil.<br>Bu i LlD holi os fu'r Heddlu yn rhan o'r grŵp ymchwil a cadarnhawyd nad oeddent gan bod y grŵp yn edrych yn benodol ar presgripsiynau cymdeithasol ond bod canfyddiadau Llwybrau Gwyllt wedi dod allan o'r sgyrsiau.<br>Diolchwyd i Elizabeth am rannu ei chanfyddiadau a nodwyd byddai'r dogfennau yn cael eu rhannu gyda Aelodau'r Bwrdd. | **Tîm Cefnogi** | **cgbm** |
| **3** | **Cylch Gorchwyl**<br>Nodwyd bod angen edrych ar y cyfansoddiad a sut allwn ychwanegu gwerth i waith ein gilydd yn ogystal â tynnu baich oddi ar ein gilydd.<br>Nodwyd bydd gofynion ac oblygiadau Aelodaeth o'r Bwrdd yn cael eu hystyried wrth lunio cynlluniau gweithredu'r Cynllun Llesiant newydd. | | |
| **4** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf : 16/3/22**<br>Eitemau yn codi o'r Pwyntiau Gweithredu:<br><u>Llythyr Trydydd Pont</u> – Nodwyd bod y llythyr wedi ei ddanfon a llythyr ymateb wedi ei dderbyn. Cafwyd eglurhad gan GJ mai Aelodau Statudol yn unig oedd dan sylw i fod yn cyd-arwyddo'r llythyr.<br>Nodwyd bod FfJ wedi darparu papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn ddiweddar a byddai'n cael i gylchredeg i Aelodau'r Bwrdd.<br>Nodwyd bod Bwletin gwybodaeth i aelodau'r BGC wedi ei gylchredeg yn ystod mis Mai gyda'r bwriad o ddanfon rhagor fydd yn rhoi diweddariad rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i'r dyfodol. Roedd cytundeb gan yr Aelodau bod y bwletin yn ddefnyddiol.<br>Gofynnwyd i ychwanegu eitem Adrodd yn ôl gan y Cadeirydd ar yr Agenda o hyn allan. | **Tîm Cefnogi**<br><br>**Tîm Cefnogi** | **Cgbm**<br><br>**cgbm** |
| **5** | **Adroddiad Blynyddol Drafft 2022-23**<br>Rhoddwyd diweddariad llafar ar yr adroddiad blynyddol gan nodi ei fod yr adroddiad olaf o ran Cynllun Llesiant 2018-2022.<br>Dywedwyd byddai yn cael ei drafod ym Mhwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywi Cyngor Sir Ynys Môn ar 21/6/23 ac ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 13/7/23. Nodwyd bwriad i gylchredeg y drafft i Aelodau'r Bwrdd am sylwadau.<br>Eglurodd ST ei bod yn awyddus cyflwyno'r adroddiad blynyddol nawr fel bod yr Haf gennym i ganolbwyntio ar lunio cynlluniau gweithredu'r Cynllun Llesiant newydd. | | |
| **6** | **Cynllun Llesiant 2023-2028**<br><u>Amcan Sero Net</u> : Eglurodd ST bod y Siarter Teithio Llesol yn faes gwaith gellir cychwyn arno i gyfarfod yr amcan net sero. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Arweiniodd DG Aelodau'r Bwrdd trwy'r dogfennau oedd wedi eu rhannu o flaen llaw y cyfarfod. Nodwyd bod y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022 wedi cytuno i adrodd yn ôl ar y Siarter.<br>Cafwyd trafodaeth ar yr hyn oedd wedi ei gyflwyno a nodwyd pryderon rhai Aelodau bod eu ffiniau daearyddol yn amrywio o'i gymharu gyda aelodau eraill y Bwrdd a byddai hyn o bosib yn her i gyfrannu at y monitro.<br>Amlygodd GJ bod rhai o anghenion y siarter yn gyfleon amlwg i gydweithio.<br>Eglurodd DG nad yw'r baich monitro yn enfawr a bod hyfforddiant ar gael a mae'r strwythur monitro yno yn barod. Ychwanegwyd bod y ddwy BGC arall o fewn y Gogledd hefyd wedi cytuno i fabwysiadu mewn egwyddor.<br>Cytunwyd bod yr holl Aelodau angen trafodaethau pellach o fewn eu sefydliadau a byddai GP yn rhannu y ddogfennaeth eto gan fod trafferthion gyda agor rhai o'r atodiadau a ddarparwyd. Trafodaeth bellach i'w gael yn y Bwrdd nesaf fis Medi.<br><u>Amcan Tlodi</u> - Trafodaeth yn digwydd gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r ddwy Gyngor Sir i gychwyn symud y gwaith yma ymlaen. Wedi edrych fewn i weithdai gyda'r Bevan Foundation a fyddai'n sicrhau dealltwriaeth ar lefel strategol a gweithredol.<br><u>Amcan Plant a Phobl Ifanc</u> – Dywedodd FfJ bod Is Grŵp Plant a Phobl Ifanc eisoes yn bodoli yn Ynys Môn. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda swyddogion cyfatebol Cyngor Gwynedd. Bydd angen mynd ar waith i ystyried blaenoriaethau'r Amcan yma yn dilyn y Gweithdai.<br><u>Amserlen mabwysiadu Partneriaid Statudol</u> – Nodwyd bod holl Aelodau Statudol bellach wedi mabwysiadu'r cynllun gyda CNC fel y sefydliad olaf wedi gwneud yn ystod y bore.<br><u>Sut mae Partneriaid eisoes yn cwrdd â'r amcanion (Holiadur Casglu Gwybodaeth)</u> – Cyfeiriwyd at yr holiadur sydd wedi ei gylchredeg a'r ymatebion sydd wedi dod i law hyd yma a ddarparwyd fel rhan o bapurau'r cyfarfod. Gofynnwyd eto i aelodau sydd heb gwblhau'r holiadur i wneud hynny gynted a phosib.<br><u>Cynlluniau Cyflawni</u> – Eglurwyd bod angen ystyried sut i weithredu ar yr amcanion sydd wedi eu cytuno yn y cynllun llesiant – boed hynny yn is-grwpiau fel y 5 mlynedd ddiwethaf neu ffurf arall. Dywedwyd bod bwriad cynnal gweithdai dros yr Haf i edrych mewn i hyn. Ychwanegwyd bod opsiynau gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru a CNC. Nodwyd yr awydd i weld cyraeddiadau tymor byr, canolig a hir i'r cynllun<br><u>Lansiad Swyddogol</u> – Nodwyd bod bwriad lansio'r Cynllun Llesiant yn swyddogol yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol mis Awst. Rhoddwyd cais i Aelodau'r Bwrdd roi gwybod i ni os oes unrhyw ddigwyddiadau neu gyfleoedd i fynychu digwyddiadau yn ystod yr Eisteddfod. Nododd Cyng DS ei fod yn awyddus nodi bod diffyg dealltwriaeth wedi bod gan Aelodau Etholedig wrth drafod y Cynllun Llesiant yn ystod cyfarfod llawn y Cyngor ar 4 Mai a bod hi'n bwysig amlygu pwrpas a gwaith y Bwrdd wrth lansio'r cynllun yn ystod yr Eisteddfod. | **Pawb**<br>**Tîm Cefnogi**<br><br>**Pawb**<br><br>**Pawb** | **cgbm**<br>**Medi, 2023**<br><br>**7/7/23**<br><br>**cgbm** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **7** | **Cyfleon a Heriau**<br>Dim i'w nodi. | | |
| **8** | **Diweddariadau yr is-grŵpiau**<br>**Is-grŵp Iaith Gymraeg**<br>Eglurodd GP bod llythyr wedi ei ddanfon at Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn cais gan y Bwrdd yn ei gyfarfod mis Mawrth a bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Comisiynydd yr wythnos nesaf i drafod cyfleon cydweithio, gwersi a ddysgwyd o'r prosiect Cyswllt Cyntaf ac i amlygu gwaith y Bwrdd a'r Is grŵp Iaith. Nodwyd bod cyfarfod adborth wedi ei drefnu gyda Iaith ar y prosiect diweddar fydd hefyd yn cymryd lle yr wythnos nesaf. Nodwyd bod Lowri Hughes, Prifysgol Bangor wedi ei ethol yn Gadeirydd newydd i'r Is grŵp Iaith. Nodwyd hefyd bod yr Is-grŵp yn awyddus parhau i gydweithio a hyrwyddo'r iaith fel rhan o waith y Bwrdd er nad oes amcan penodol i'r gwaith hwn yn y cynllun llesiant newydd.<br>Dywedodd Cyng. DS ei fod yntau yn awyddus gweld gwaith y grŵp yn parhau gan fod blaenoriaeth yr Iaith Gymraeg wedi ei herio wrth drafod y Cynllun llesiant newydd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn.<br><u>Cynnig Gweithlu Dwyieithog</u> – Nodwyd bod y prosiect yma wedi ei gynnig eisoes i'r Bwrdd a bod y cynnig wedi ei ddiwygio rhywfaint i adlewyrchu awydd BGC eraill ar draws Gogledd Cymru i gydweithio a bod yn rhan o'r ymchwil. Dywedodd ST ei bod yn debygol bod arian ar gael i weithredu'r prosiect trwy'r arian rhanbarthol sydd ar gael i'r BGC.<br>Dywedwyd bod yn bwysig bod unrhyw waith ymchwil gyda argymhellion ymarferol.<br>Crybwyllwyd prosiect Arfor a'r gwaith mae hwy yn gwneud yn y maes. Rhannwyd manylion cyswllt Anwen Davies, Rheolwr Rhanbarthol. | | |
| **9** | **Rhestr Rhwystrau a Datrysiadau**<br>Cyfeiriwyd at y rhestr Rhwystr a Datrysiadau oedd wedi ei gylchredeg gyda'r papurau.<br>Nododd ST ei bod yn ffyddiog bydd cynnydd ar sawl un o'r pwyntiau erbyn yr Haf.<br>Nodwyd yr angen am amcanion pendant i allu adlewyrchu arnynt mewn adroddiad blynyddol. | | |